CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

***Cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru,***
***Yn rhithiol drwy Microsoft Teams***
***Dydd Mercher, 16 Mehefin, 2021***
**10.15a.m. – 1.00p.m.**

**Yn bresennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ynys Môn**<br>Rheinallt Thomas (RT)<br>Gwyneth Mai Hughes (GH)<br>Dylan Rees (DR)<br>Christopher Thomas (CT)<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Paula Webber (PW)<br>Kathy Riddick (KW)<br>Chris Abbas (CA)<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr**<br>Angela Hill (AH)<br>Alice Parry (AP)<br>Lucy Grant (LG)<br><br>**Caerffili**<br>Paula Webber (PW)<br>Janet Jones (JJ)<br>John Taylor (JT)<br><br>**Caerdydd**<br><br>**Sir Gaerfyrddin**<br>Kimberley Perry (KP)<br>Alex Roe (AR<br>Aled Jones (AJ)<br>Helen Gibbon (HG)<br><br>**Ceredigion**<br>Keith Evans (KE)<br>Mary Davies (MD)<br>Joyce Howells (JH) | **Conwy**<br>Phil Lord (PL)<br><br>**Sir Ddinbych**<br>Phil Lord (PL)<br><br>**Sir y Fflint**<br>Vicky Barlow (VB)<br>Janet Axworthy (JA)<br>Dave Mackie (DM)<br>Lyn Oakes (LO)<br><br>**Gwynedd**<br>Dewi Roberts (DR)<br>Paul Rowlinson (PR)<br>Eurfryn Davies (ED)<br><br>**Merthyr Tudful**<br><br>**Sir Fynwy**<br>Paula Webber (PW)<br>Louise Brown (LB)<br>Sue Cave (SC)<br>Suzanne Gooding (SG)<br><br>**Castell-nedd Port Talbot**<br>Rachel Samuel (RS)<br><br>**Casnewydd**<br>Paula Webber (PW)<br>Neeta Baicher (NB)<br>Huw Stephens (HS)<br>Laura Lacey (LL) | **Sir Benfro**<br>Amanda Lawrence (AL)<br><br>**Powys**<br>Ange Williams (AW)<br>Katie Mcneill (KM)<br>Lynette Lovell (LL)<br>Sharron Humphreys (SH)<br>Sian Fielding (SF)<br>John Mitson (JM)<br><br>**Rhondda Cynon Taf**<br>Donna Graves (DG)<br>Matthew Maidment (MM)<br><br>**Abertawe**<br>Rita Green (RG)<br>Beverley Phillips (BP)<br>Jennifer Harding-Richards (JHR)<br>Paul Davies (PD)<br><br>**Torfaen**<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Bro Morgannwg**<br>Edward Williams (EW)<br><br>**Wrecsam**<br>Libby Jones (LJ)<br>Lisa Mullen (LM)<br>Vaughan Salisbury (VS) | ***Arsyllwyr:***<br>**REMW**<br>Paul Morgan (PM)<br><br>**CBAC**<br>Andrew Pearce (AP)<br><br>**ESTYN**<br><br>**Llywodraeth Cymru**<br><br>**Cyngor Addysg Grefyddol (REC)**<br><br>**Yr Eglwys yng Nghymru**<br>Elizabeth Thomas (ET)<br><br>**Y Gwasanaeth Addysg Gatholig**<br><br>**Cymwysterau Cymru**<br><br>**Rhwydwaith Rhyng-ffydd**<br>David Hampshire<br><br>**CCAC**<br>Elin Stock (ES)<br><br>**Cofnodion**<br>Gill Vaisey (GV) |

DRAFT

**Cofnodion y cyfarfod**

## 1. Cyflwyniad a chroeso

Croesawyd pawb yn Gymraeg a Saesneg gan RS i gyfarfod yr haf a'r Cyfarfod Blynyddol. Eglurodd y drefn ar gyfer y cyfarfod rhithiol hwn.

Yna cafwyd croeso gan Lynnette Lovell, Prif Swyddog Addysg Dros Dro Powys yn rhinwedd y ffaith mai Powys oedd yn croesawu'r cyfarfod – er ei fod yn rhithiol. Roedd Sian Fielding, ar ran Gwasanaeth Gwella Ysgolion Powys yn bresennol hefyd.

Soniodd Lynette am yr amser cyffrous sydd o'n blaenau wrth i CGM gymryd drosodd o'r hen AG, yn dod yn statudol i blant 3- 16 oed, a heb hawl i dynnu'n ôl.

Cyfeiriodd at yr ymgynghoriad ar Ganllawiau CGM sy'n agored ar hyn o bryd ac roedd hi'n cydnabod fod gan CCYSAGauC waith pwysig wrth ffurfio'i hymateb.

Tynnodd LL sylw at y ffaith fod Powys yn sir fwy amrywiol nag y byddai rhywun yn ei feddwl o ran cefndir cymdeithasol a diwylliannol ei phoblogaeth. Mae CYSAG Powys yn dymuno gwneud yn siŵr ei fod yn adlewyrchu'r amrywiaeth hwn yng nghynrychiolaeth ei aelodaeth. Roedd hi'n cydnabod rhywfaint o'r gwaith ardderchog sy'n digwydd mewn ysgolion.

Mynegodd LL ei diolch i Rachel Linguard a Sarah McNeil sy'n darparu cymorth gweinyddol i GYSAG Powys. Diolchodd hefyd i Sian Fielding am ei holl waith gwerthfawr a'i chefnogaeth i AG yn y sir. Nododd y bydd Sian yn gadael ei swydd ar ddiwedd y tymor.

## 2. Myfyrio tawel

Arweiniodd RS yr aelodau drwy fyfyrdod ar ochr gadarnhaol y pandemig yn yr ystyr ei fod wedi rhoi cyfle i ni i gyd i ail-asesu'r hyn sydd fwyaf pwysig mewn bywyd. Awgrymodd y gallem ddysgu o hyn a sicrhau ein bod yn y dyfodol yn parhau i werthfawrogi'r 'pethau bychain' a mabwysiadu ffordd arafach o fyw.

## 3. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan John Meredith (Blaenau Gwent), Tania ap Siôn (Wrecsam), Edward Evans (Pen-y-bont ar Ogwr), Michael Gray (Caerffili), Tudor Thomas (Sir Fynwy).

## 4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2021

Cytunwyd fod y cofnodion yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod, yn amodol ar ychwanegu Mary Davies o Geredigion at y rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol.

Cynigiodd RT fod y cyfarfod yn derbyn y cofnodion ac fe'i heiliwyd gan Keith Evans.

## 5. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod diwethaf CCYSAGauC

Eitem 7. Roedd y wefan newydd wedi'i lansio y diwrnod cynt ac mae bellach yn fyw. Diolchwyd i Nick Evans a Tania ap Siôn am eu gwaith ar y wefan.

DRAFT

**6. Cyflwyniad PYCAG – Ymgynghoriad LlC ar Ganllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**

Eglurodd RS fod yr ymgynghoriad yn cynnwys 10 cwestiwn y mae angen i CCYSAGauC ffurfio'i hymateb iddynt.

Dangoswyd fideo a grëwyd gan Ganolfan San Silyn i roi cyd-destun i'r ymgynghoriad.

Rhannodd RS ymateb cychwynnol y Pwyllgor Gwaith i'r canllawiau. Roedd hi wedi crynhoi'r rhain ar PowerPoint a fyddai'n cael ei rannu yn dilyn y cyfarfod.

**GWEITHREDU:** Anfon y PowerPoint i bob aelod / CYSAGau.

I ychwanegu at neu roi sylwadau ar y sylwadau a oedd eisoes ar y sleidiau, gwahoddodd RT ymatebion o'r llawr i bob un o'r cwestiynau.

Dylid darllen y sylwadau canlynol a gofnodwyd yn y cyfarfod ochr yn ochr â'r PPT.

**1.** Pa mor dda mae'r canllawiau yn esbonio cwmpas CGM a'i gyd-destun ym Maes y Dyniaethau?

RT - bu llawer o drafodaeth â LlC am yr ochr gyfreithiol - mae angen deall fod y pwyslais ar greu Deddf gyfreithiol gyntaf i Gymru'n unig. Bellach mae'r Ddeddf yn sôn am 'y traddodiadau yng Nghymru (nid Prydain) ac mae'n cynnwys argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol.

LB - nid yw'n cytuno â'r geiriad 'gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol' fel y cyfeirir ato yn y PPT ac awgrymodd fod angen edrych yn ôl ar y ddeddfwriaeth o ran adlewyrchu'r ffaith mae'r prif draddodiadau crefyddol yw rhai Cristnogol tra'n ystyried prif grefyddau eraill. Dywed fod angen cadw'r safbwynt gwreiddiol - sef adlewyrchu Cristnogaeth a phrif grefyddau eraill ac mae hi'n teimlo fod 'perygl o fynd yn rhy bell at ogwydd plwraliaethol'

Cwestiynwyd y diffiniad a roddir o grefydd yng Nghanllawiau'r CGM. Ai rhyw ddiffiniad fel un y Comisiwn Elusennau yw hwn? - mae angen ystyried hyn ymhellach.

Nid yw'r adran gyfreithiol wedi cael ei hysgrifennu'n dda iawn. Roedd y fersiwn wreiddiol yn haws ei dilyn - bellach mae mwy o dermau cyfreithiol yma sy'n ddryslyd ac yn llai hygyrch i'r darllenydd. Mae'r diffiniadau sy'n ymwneud â'r adran ysgolion ffydd yn gymhleth iawn!

RS - gyda'r darn cyfreithiol ar ddechrau'r canllawiau, mae fel pe'n cymryd gormod o flaenoriaeth dros y darn arall ac mae'n rhwystr cyn darllen yr adran am weithredu CGM.

PW - mae'r darn cyfreithiol yn ddryslyd a heb ei ddiweddaru. Dylai'r diffiniad o grefydd ddatgan fod hwn yn ddiffiniad yn y gyfraith - ac nid yn ddiffiniad academaidd a ddefnyddir / a ddeëllir yn gyffredinol mewn addysg.

CT - Llongyfarchodd Ganolfan San Silyn ar y fideo. Mae angen diffiniadau ar ystyr bydolygon, plwraliaethol ayb. - angen rhestr eirfa glir - nid jargon.

KR - holodd am y diffiniad o grefydd a'r cyfeiriad at 'fod goruchaf' sy'n adlewyrchu crefydd monotheistiadd neu amldduwiol. Pwynt y cwricwlwm newydd yw creu addysgu gwrthrychol. Mae ar athrawon angen dealltwriaeth glir o'r hyn a ddisgwylir ganddynt - mae angen gwarchod athrawon drwy sicrhau eu bod yn deall sut i ddysgu CGM gyda'r dull hwn. Er na chafodd y term bydolygon ei fabwysiadu fel teitl i'r pwnc, rydym dal angen dysgu am fydolygon.

VS – bydd mynd i'r afael â diffiniadau termau yn hollbwysig. Mae'n peri dryswch fod y gair bydolygon yn cael ei gynnwys gan nad oes diffniad clir o'r gair hwn. Mae ef yn ymwybodol am ymchwil y Cyngor Addysg Grefyddol i ddeall y term bydolygon.

Tynnodd GV sylw at fideo Theos a rhoddodd ei dealltwriaeth hithau o'r term bydolwg. Roedd h'n canmol y fideo hwn yn fawr gan ei bod yn teimlo ei fod yn cynnig dehongliad ardderchog o ystyr y term.

Nobody Stands Nowhere - Theos Think Tank - Understanding faith. Enriching society.

**GWEITHREDU:** Cytunwyd i anfon y ddolen i'r aelodau i gyd.

PW - roedd y grŵp a ysgrifennodd hwn yn wreiddiol wedi rhoi diffiniad o'r term bydolwg ac mae hwn wedi'i dynnu am resymau yn ddiarwybod iddi hi. Pe bai wedi cael ei gadw byddai mwy o eglurder ar yr hyn a fwriedir drwy ddefnyddio'r term bydolwg - fod yn rhaid cynnwys archwilio pob cred ac nid yn unig y rheiny sy'n cynnwys cred mewn bod goruchaf.

LB - awgrymodd fod y term gwrthrychol yn cyfeirio at y ffaith na ddylai'r addysgu fod yn golygu trwytho (*indoctrination*). Roedd CYSAG Sir Fynwy eisiau cadw AG fel y teitl. Awgrymodd y dylai athrawon fod yn archwilio Gwerthoedd a Moeseg erbyn hyn ac nid bydolygon. Ni ddylid pellhau oddi wrth y ddeddfwriaeth. Roedd hi'n cymeradwyo fideo San Silyn. Dylid cofio fod disgresiwn gan y Pennaeth i ddysgu AG fel pwnc unigol.

RG – a oes rhestr o'r prif draddodiadau crefyddol yng Nghymru? Pwy sy'n penderfynu beth yw'r rhain?

LJ - dywedodd fod y diffiniad o 'bydolygon' a oedd yn y drafft wedi cael ei dynnu oherwydd nad oedd y term hwn wedi cael ei ddefnyddio yn y Bil na'r Ddeddf. Mae bydolygon yn gysyniad Ewropeaidd hefyd. Nid yw athrawon yn cael eu hatal rhag cynnwys bydolygon ac ysgrifennwyd canllawiau i annog plant i archwilio bydolygon ond mae angen gwneud mwy o waith ar hyn.

HS –Mae'n bwysig iawn clywed barn athrawon yn y swydd ar y canllawiau hyn.

RS - yn siarad 'gyda het athro' - roedd y fersiwn gynharach yn hawdd i'w deall a gallai hi weld sut y gallai eu haddysgu CGM gael ei ymgorffori a sut roedd hyn yn plethu i'r cwricwlwm cyfan. O ran y canllawiau diweddaraf - pan ddechreuodd ddarllen y ddogfen, ni allai wedi ei pherthnasedd iddi hi fel athrawes gan fod yr adran gyfreithiol yn cymryd drosodd. Ni ddylai'r adran gyfreithiol fod ar ddechrau'r canllawiau. Mae ail hanner y canllawiau yn gweithio'n well i athro. Bydd rhai athrawon yn gallu adnabod pethau ynddo'n hawdd - bydd eraill yn ei chael yn fwy anodd. Bydd angen dysgu proffesiynol da i gefnogi athrawon drwy'r broses addysgu a amlinellir yn y canllawiau yma.

NB – fel cynrychiolydd ffydd mae hi'n hapus i gyfrannu at Ddysgu Proffesiynol fel rhan o GYSAG Casnewydd.

**Cwestiwn 2** A yw'r canllawiau, yn gyffredinol, yn glir ac o gymorth i chi yn eich swydd?

PW – mynegodd ei phryder am ble mae'r ddogfen yn eistedd o ran bod yn ganllawiau statudol. Y bwriad gwreiddiol oedd iddi fod yn fframwaith cymorth – i'w fabwysiadau neu ei addasu gan GYSAGau fel Maes Llafur Cytunedig. Erbyn hyn bydd yn cael ei ymgorffori yn y

canllawiau cwricwlwm cyffredinol i ysgolion. Mae'r statws / safle wedi newid heb ymgynghori â rhanddeiliaid. Holodd sut roedd hyn wedi digwydd a pham y bu diffyg tryloywder.

LJ - nid yw hi'n meddwl y bu symudiad - ond siwrne yn hytrach - a ddechreuodd mewn un lle - cawsom ein harwain i gredu gan LlC y byddai'n un peth ond maen nhw wedi gorfod gwneud rhai penderfyniadau ar hyd y daith. Mae'n rhaid i'r canllawiau fod yn statudol. Mae'n destun gofid na chafodd CCYSAGauC a ChYSAGau eu diweddaru yn ystod y broses fwy diweddar. Ers i Manon Jones adael, daeth y diweddariadau rheolaidd gan LlC i ben. Bydd y ddogfen bellach yn eistedd o fewn y canllawiau statudol ond y bwriad o hyd yw iddi fod yn sail i Faes Llafur Cytunedig.

LB – bydd y Maes Llafur Cytunedig yn benderfyniad ALl – felly dylai'r fersiwn newydd hon o'r canllawiau fod yn fframwaith anstatudol i'w ystyried. Cyflwynwyd y drafft blaenorol fel dogfen ganllaw anstatudol.

PL – os yw CYSAGau yn dilyn eu llwybr eu hunain wrth greu eu maes llafur byddwn yn colli'r cysondeb a gafwyd yn 2008. A fydd CCYSAGauC yn rhoi arweiniad i'r CYSAGau er mwyn ceisio cadw cysondeb? A fydd CCYSAGauC yn cynghori ar hyn?

**GWEITHREDU:** Rhoi sylwadau / syniadau PL ar agenda cyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith.

KR - awgrymodd fod y newid yn natur y ddogfen wedi digwydd yn syth ar ôl dileu'r hawl i dynnu'n ôl. Ers dileu hwn, mae'n hanfodol fod y ddeddfwriaeth yn cael ei hesbonio'n glir. Mae agwedd genedlaethol at Faes Llafur Cytunedig yn ddelfrydol ond mae'n rhaid i ni sicrhau mai dyma'r fframwaith cywir i'w fabwysiadu.

KE – Mae LlC yn ceisio creu dogfen sy'n addas i bawb. Os oes gan bobl safbwyntiau gwahanol, bydd hyn yn creu sefyllfa anodd. Mae ef yn teimlo fod LlC wedi gwneud gwaith da o ddarparu dogfen y gallwn ni i gyd weithio gyda hi.

**Cwestiwn3** A yw'r canllawiau yn cynnig gwybodaeth berthnasol i gefnogi ymarferwyr wrth lunio eu cwricwlwm ysgol ar gyfer CGM?

MM – bydd yn rhaid i athrawon dreulio oriau lawer yn dehongli'r canllawiau ar eu pennau eu hunain. Mae angen deunyddiau enghreifftiol i athrawon. Byddai deunyddiau mwy eglur wedi bod o gymorth gan mai dyma beth sydd ei angen ar athrawon.

LO – i ymarferwyr nad oes ganddynt gefnogaeth yn eu ALlau, bydd hon yn her enfawr. Mae angen chwilio yn y canllawiau i ddod o hyd i'r darn perthnasol.

PW – wedi gweithio gydag ymarferwyr EAS – roedd hi'n meddwl tybed allai'r ddogfen fod yn fwy o sut i gynllunio'r cwricwlwm. Gellid datblygu'r cwestiynau ar y diwedd yn fwy fel canllaw sut i wneud.

AP - o safbwynt athrawes mae'r canllawiau yn frawychus wrth eu darllen gyntaf ac wrth ddatgymalu'r lensys a'r teithiau dysgu. Mae'r Teithiau Dysgu o gymorth ond byddant yn anodd i athrawon sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain. Mae angen Dysgu Proffesiynol er mwyn symud ymlaen.

DRAFT

LB - pryder am ysgolion uwchradd heb athrawon arbenigol. Mae'n bwysig peidio â cholli arbenigeddau yn AG. Mae'r cwricwlwm yn gyffredinol yn rhoi hyblygrwydd i athrawon ddysgu gwahanol bynciau mewn gwahanol ffyrdd drwy ddefnyddio amryw o ddulliau disgyblaethol.

PL – yn 2008, cynhyrchodd ALlau eu deunydd ategol eu hunain i fynd gyda'r Maes Llafur Cytunedig. Allai CCYSAGauC gynnig arweiniad ar gynhyrchu deunyddiau ategol?

Awgrymodd RS fod yn rhaid i ni gofio fod angen adlewyrchu'n lleol sefyllfa pob ysgol.

PW – yn 2008 nid oedd y consortia gennym, dim ond y 22 ALl.

RS – dywedodd nad yw rhai ALl mewn consortia erbyn hyn.

DR – nid oes cymorth proffesiynol yng Ngwynedd.

**Cwestiwn 4** Gan feddwl am bob adran o'r canllawiau, ydych chi'n teimlo fod yna:
a) unrhyw fylchau mewn gwybodaeth?

b) unrhyw ddarnau sy'n arbennig o ddefnyddiol?

Gofynnodd RS i'r aelodau e-bostio ymatebion yn hytrach na'u trafod yn ystod y cyfarfod hwn.

**Cwestiwn 5** A yw'r canllawiau'n cynnig digon o gefnogaeth i bob ymarferwr i gynllunio ac addysgu CGM?

CT – mae'n cyflwyno materion cymhleth i athrawon ddelio â nhw yn y dosbarth – bydd y rhai nad ydynt yn arbenigwyr yn cael hyn yn hynod o heriol.

RS – roedd hi'n cytuno y bydd ysgolion cynradd a meithrin angen llawer o gefnogaeth.

VS - mae cyflwyno argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yn amlygu problemau diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth i athrawon. Bydd arnynt angen cymorth o ansawdd uchel ac adnoddau yn y maes hwn.

RS – mae addysgu AG dim ond mor dda â'r hyfforddiant a roddwyd i athrawon

MD - o ganlyniad i feysydd dysgu traws-gwricwlaidd - bydd addysgu traws-gwricwlaidd ac felly athrawon heb fod yn arbenigwyr yn addysgu CGM.

**Cwestiwn 6** A oes angen cefnogaeth ychwanegol (e.e. dysgu proffesiynol ac adnoddau) i sicrhau fod y canllawiau hyn yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus?

CT - awgrymodd fod dysgu proffesiynol yn hanfodol gan y gallai athrawon fod yn wynebu materion cymhleth ac mae angen cymorth â datblygu'r addysgu, yn arbennig i'r rhai nad ydynt yn arbenigwyr.

RS - roedd hi'n ategu hyn ac yn pwysleisio y byddai lleoliadau cynradd a meithrin angen lefel priodol o ddysgu proffesiynol hefyd o ganlyniad i'r newidiadau y maent hwythau'n eu hwynebu.

DRAFT

VS - Mae angen hyfforddiant penodol mewn argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol hefyd. Mae materion i brifysgolion a darparwyr AGA i'w hwynebu hefyd. Mae angen creu adnoddau o ansawdd uchel a sicrhau fod y rhain ar gael i bawb.

MD - atgyfnerthodd y pwynt am feysydd dysgu traws-gwricwlaidd felly bydd athrawon nad ydynt yn arbenigwyr yn addysgu'r pwnc ac felly bydd angen dysgu proffesiynol.

**Cwestiwn 7** A yw'r canllawiau yn ddogfen ddefnyddiol ar gyfer datblygu cynadleddau maes llafur cytunedig?

**7b** A yw'r canllawiau yn ddogfen ddefnyddiol i'r Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog?

RT - awgrymodd ein bod fe pe baem yn mynd yn ôl i'r 1970au pan mai dim ond datganiad sylfaenol oedd a ddaeth wedyn yn Faes Llafur Cytunedig. Yn y dyddiau hynny ychydig dudalennau o ofynion statudol oedd, gyda rhywfaint o ddeunydd enghreifftiol ategol. Awgrymodd y gallai arddull meysydd llafur yr 1960au / 70au ddychwelyd eto!

CT – yn cytuno â RT – 'mai llai yn fwy' fel dogfen Maes Llafur Cytunedig statudol.

**Ymgynghoriad oedd yn rhan o bob un o ymgynghoriadau LlC:**

**8.** Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r canllawiau CGM yn eu cael ar y Gymraeg

**9.** Eglurwch hefyd sut y credwch y gellid ffurfio neu newid y canllawiau CGM er mwyn cael effaith gadarnhaol ar yr Iaith Gymraeg a dim effeithiau andwyol

Awgrymodd RS nad yw'r ddogfen yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg.

Holodd pam fod y llythrennau RVE yn dal yn Saesneg yn y fersiwn Gymraeg – yn hytrach na defnyddio'r talfyriad Cymraeg.

JH - dywedodd fod yn rhaid darparu'r fersiynau Cymraeg a Saesneg yr un pryd. Mae hithau'n cytuno â'r pwyntiau blaenorol y gall datblygu Maes Llafur Cytunedig fod yn fater o'r 'rhod yn troi' gydag ysgolion yn cael hyblygrwydd - ychydig o fanylion yn y MLI - mwy o ddeunydd enghreifftiol.

**10.** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi'u nodi'n benodol, nodwch nhw yma.

Mae angen gwella'r darn cyfreithiol.

Y term 'cynefin' – angen eglurhad.

PW – yn amheus am y term 'lensys' a ddefnyddiwyd mewn cysylltiad â'r rhestr o bwyntiau bwled – Chwilio am ystyr. Mae'r byd naturiol ayb yn ddryslyd a ddim yn cyd-fynd â'r ffordd y mae'r term lens yn cael ei ddeall ar hyn o bryd ac yn cael ei ddefnyddio mewn addysg – h.y. mae'n fwy arferol defnyddio'r term lens yng nghyd-destun lens hanesyddol, lens gymdeithasegol, lens bersonol ayb.

GV - roedd hi'n teimlo mai bwriad y pwyntiau bwled hyn ar 'feysydd CGM' yw helpu athrawon drwy roi manylion ychwanegol a ddygwyd ymlaen o Fframwaith Enghreifftiol 2008 a'r

Meysydd Llafur Cytûn a fodelwyd arno. Awgrymodd GV y byddai o gymorth, fodd bynnag, i ddefnyddio term gwahanol i 'lensys' er mwyn osgoi dryswch posibl.

Esboniodd LJ mai bwriad y term 'lensys' yw darlunio'r ffaith fod yna ffyrdd gwahanol o edrych ar wahanol gysyniadau.

LJ – eglurodd fod y Teithiau Dysgu enghreifftiol wedi cael eu gosod yn erbyn y camau dilyniant a'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig. Mae'r ddogfen yn cadarnhau fod yn rhaid i athrawon ddefnyddio'r datganiadau a dilyn egwyddorion y camau dilyniant. Mae'r rhan hon o'r canllawiau yn ceisio gwneud dau beth – hyrwyddo / darparu mwy o ddyfnder o ran gwybodaeth bynciol a hwyluso dealltwriaeth athrawon o'r hyn yw CGM, a'u helpu i ganfod cyfleoedd i archwilio cysyniadau CGM o fewn datganiadau'r hyn sy'n bwysig.

## 7. Diweddariad Llywodraeth Cymru – Dysgu Proffesiynol

Atgoffodd LJ yr aelodau fod CCYSAGauC wedi bod yn pwyso am Ddysgu Proffesiynol a ariannwyd yn ganolog i CGM ac ailadroddodd pa mor hanfodol yw hi fod hwn yn cael ei ddarparu a'i gyflwyno i ymarferwyr. Mae LlC wedi cytuno o'r diwedd fod yna angen, yn bennaf o ganlyniad i dystiolaeth yr arolwg diweddar a lenwyd gan ysgolion. Bellach dyrannwyd swm o arian ar gyfer gwaith DP ond LlC fydd yn rheoli'r cyfrifo a'r taliadau ar gyfer hwn. CCYSAGauC fydd yn gyfrifol am greu'r adnoddau a allai fod yn gyfuniad o becynnau hyfforddi ac o bosibl adnoddau digidol i ysgolion. Gall CCYSAGauC benderfynu ar y bobl fydd yn ymgymryd â'r gwaith hwn a gallai'r rhain gynnwys athrawon, ymgynghorwyr, aelodau CCYSAGauC neu PYCAG fel fydd ar gael ac yn ddigon cymwys. Dylai'r adnoddau i gyd fod wedi'u cwblhau erbyn Ebrill 2022.

## 8. Adroddiad o'r Pwyllgor Gwaith a Gynhaliwyd ar 12 Mai 2021

Rhoddodd RS yr adroddiad canlynol:

Cafwyd un cyfarfod llawn o'r Pwyllgor Gwaith ers cyfarfod diwethaf CCYSGauC – trafodwyd ystod o faterion:

- Trafodwyd materion Llywodraeth Cymru yn dilyn cyfarfodydd gyda LlC, yr angen am Ddysgu Proffesiynol a'r ymgynghoriad ar y fframwaith. Rhoddwyd cryn sylw i'r fframwaith yn gynt yn y cyfarfod sy'n adlewyrchu'r holl drafodaethau arno gan y pwyllgor gwaith yn y prif gyfarfod a hefyd mewn cyfarfod byr, i drafod ein syniadau cychwynnol am yr ymgynghoriad. Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y swyddogion a LlC ar 21.4.21 pryd y trafodwyd ystod o faterion, yn canolbwyntio'n bennaf ar yr ymgynghoriad CGM. Ar y pryd nid oedd yr ymgynghoriad wedi agor ac fe'n hysbyswyd fod CYSAGau wedi cael golwg ar y ddogfen ddrafft, ond ers y ddogfen ddrafft roedd gwasanaethau cyfreithiol LlC wedi ychwanegu adrannau nad oedd CCYSAGAuC na'r CYSAGau wedi'u gweld - gwelwn y rhain bellach yn y ddogfen ymgynghori. Fe'n hysbyswyd hefyd nad oedd bwriad i adolygu addoli ar y cyd ar hyn o bryd ond bod LlC yn cydnabod fod angen adolygu'r agweddau sy'n weddill o 10/94 a oedd yn dal i fod yn berthnasol. Hysbyswyd LlC am ein cynnydd diweddaraf gyda dysgu proffesiynol - mae LlC drwy Kevin Palmer wedi gwneud cynnig ar gyfer DP, mae hwn yn mynd rhagddo a byddwn yn gallu diweddaru CCYSGAuC ymhellach arno yn ein cyfarfod nesaf pan fydd mwy o amser yn caniatáu.

- Cafodd cynrychiolwyr y pwyllgor gwaith slot i roi cyflwyniad byr yn ystod cyfarfod diwethaf CCAC i dynnu sylw at ddatblygiadau gyda'r newidiadau i AG (CGM) yn sgil datblygu'r cwricwlwm i Gymru, cael gwared ar yr hawl i dynnu'n ôl a ChYSAGau.
- Buom hefyd yn rhoi sylw i'n cyhoeddiadau, protocolau a'n presenoldeb i sicrhau eglurder ein rôl a phwrpas i bawb. Rhan o hyn yw'r wefan newydd sy'n barod i fynd yn fyw. Mae'r cyhoeddiadau i gyd ar y safle yn ogystal â gwybodaeth gyswllt a gwybodaeth berthnasol.
- Derbyniwyd diweddariadau i'n cynrychiolwyr yn yr REC ac AREIAC.
- Trafodwyd gohebiaeth a dderbyniwyd ac yn arbennig y cais gan Gyngor Eglwysi Rhyddion Cymru am gymorth i gyfieithu adnoddau Saesneg i'r Gymraeg. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd nad oedd o fewn cylch gwaith CCYSAGauC i ariannu cyfieithu prosiectau o'r fath.

**9. Diweddariadau: cyflwynwyd y rhain mewn ysgrifen fel isod**

**Cyngor Addysg Grefyddol (REC)**
Roedd cyfarfod diwethaf y Cyngor ar 11 Mai 2021. Rhai o'r prif bwyntiau o'r cyfarfod oedd:
1. Ethol swyddogion ac aelodau newydd i fwrdd Ymddiriedolwyr y Cyngor.
· Cadeirydd - Sarah Lane Cawte
· Dirprwy Gadeirydd - Ed Pawson
· Ysgrifennydd y Cwmni - Deborah Weston

**Ymddiriedolwyr**:
· Kathryn Wright
· Kathy Riddick
· Paul Smalley
· Philip Robinson
· Sandra Teacher

2. Sicrhawyd cyllid i'r Cyngor AG weithio gyda RE Today, o dan arweiniad Stephen Pett, i adeiladau ar waith y Prosiect Bydolygon.
Prosiect 3 blynedd fydd hwn ac fe'i bwriadwyd ar gyfer y rheiny sy'n ysgrifennu Maes Llafur Cytunedig. Er y bydd rhywfaint o ran i Gymru, ni fydd y gwaith hwn yn disodli'r ddogfen ganllaw CGM a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru yr ymgynghorir arni ar hyn o bryd, fodd bynnag, byddwn yn parhau i weld a all unrhyw agweddau o'r prosiect fod o ddefnydd i GYSAGau Cymru.

https://www.theosthinktank.co.uk/comment/2021/05/12/worldviews-film

3. Mae'r Cyngor AG wrthi'n cynnal adolygiad strategol
Trafodwyd gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd drafft i'r Cyngor AG gan yr aelodau oedd yn bresennol mewn grwpiau trafod brecwast ynghyd â'r cwestiwn am aelodaeth yn y dyfodol a sut i reoli hyn. Codwyd rhai pryderon am y cyd-destun gwahanol i CGM yng Nghymru, a sut gall y Cyngor weithio'n effeithiol ar draws y ddwy system wahanol. Cytunwyd y dylai'r Cyngor AG geisio cyfarfod â'r cyrff Cymreig sy'n aelodau i ganfod y ffordd orau o fynd i'r afael â'r mater hwn.

**AREIAC (Gill Vaisey)**
Mae'r rhaglen o weminarau yn parhau. Yr un nesaf yw Mark Chater - 21 Mehefin, 6-7 pm 'Why radical reform of RE could still fail, and what we can do to save it:

Cynhelir cynhadledd yr haf ar-lein ar 5 a 6 Gorffennaf ac mae'r rhaglen ar gael ar y wefan. Y thema yw datblygu'r cwricwlwm ar lefel genedlaethol, leol ac ysgol. Bydd Paula Webber yn rhoi sesiwn ar Feddwl yn Ddwfn wrth ddylunio'r cwricwlwm a bydd Rachel Samuel yn rhoi diweddariad cenedlaethol ar ran CCYSAGauC. Mae'r gynhadledd ar agor i bawb ac mae'n £35 y diwrnod neu £65 am 2 ddiwrnod i'r rhai nad ydynt yn aelodau. Gellir archebu drwy Gill Vaisey, trefnydd y gynhadledd.

Prosiect Pum Dinas. Bydd AREIAC yn gweithio ochr yn ochr â'r Ganolfan Crefydd a'r Cyfryngau i helpu i drefnu'r prosiect a ddechreuwyd yng Nghaerdydd yn 2016. Ymdrech yw hon i wella cysylltiadau a chael gwell newyddiaduraeth mewn cysylltiad â materion sy'n ymwneud ag addysg grefyddol drwy ddarparu cyfleoedd i gymunedau ffydd gwrdd â newyddiadurwyr a phobl eraill yn y cyfryngau. Cafwyd cyllid gan Ymddiriedolaeth Culham St Gabriel a gobeithir trefnu'r digwyddiadau hyn yng Nghaerlŷr, Birmingham, Manceinion, Leeds a Plymouth yn hydref 2021.

Bu aelodau AREIAC yn ystyried adolygiad ymchwil OFSTED ar addysg grefyddol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2021. Mae'r adolygiad diweddaraf hwn yn tynnu ar y fframwaith adolygu addysg a llenyddiaeth arall ar addysg grefyddol i ganfod beth sy'n cyfrannu at AG o ansawdd uchel o safbwynt y cwricwlwm, asesu, addysgeg a systemau mewn ysgolion lle mae Ofsted yn adolygu AG.

**EFTRE (Gill Vaisey)**
Ni chafwyd mwy o gyfarfodydd bwrdd EFTRE ers Mawrth 2021 a chyfarfod diwethaf CCYSAGauC. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 21 Tachwedd 2021.

Cynllunnir y gynhadledd ddwy flynyddol nesaf yn Rhufain - 25-28 Awst 2022. Y thema fydd 'Crefydd Fyw' sy'n unol â'r pwyslais mewn AG i Gymru a Lloegr.

Mae logo newydd yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â gwefan newydd sy'n disgwyl cael ei lansio. Bydd y wefan yn cael ei diweddaru â'r sefyllfa ddiweddaraf yng Nghymru ynghyd â manylion darpariaeth AG ym mhob un o'r gwledydd sy'n aelodau.

Lansiwyd tudalen Facebook newydd a gellir gwneud cais i ymuno â'r grŵp Facebook a grëwyd (17) EFTRE (European Forum for Teachers of Religious Education) | Facebook

Mae Tania ap Siôn yn cymryd rhan yn y prosiect ymchwil ar draws Ewrop gan EFTRE "Beth mae Covid-19 yn ei ddatgelu i arbenigwyr AG?"

**Rhwydwaith Rhyng-ffydd i'r DU** - adroddiad gan David Hampshire
Ym mis Ebrill 2021 cyhoeddodd y Rhwydwaith adnodd i athrawon ysgolion uwchradd i'w helpu i addysgu am weithgaredd rhyng-ffydd yn y DU (gweler: https://www.interfaith.org.uk/resources/inter-faith-activity-in-the-uk-a-teacher-resource-for-secondary-pupils), oedd yn adeiladu ar yr adnodd i ysgolion cynradd yn 2019 (gweler: https://www.interfaith.org.uk/resources/learning-about-inter-faith-activity-a-primary-resource). Yn 2021 cyhoeddodd y Rhwydwaith boster y gellir ei lawrlwytho o'r enw *Shared Values: the golden*



DRAFT

*rule* (gweler: https://www.interfaith.org.uk/resources/shared-values-golden-rule), y gellir ei ddefnyddio mewn lleoliadau addysgol. Gan edrych ymlaen, mae'r Rhwydwaith yn y broses o ddatblygu adnodd ar gyfer addoli ar y cyd y gellir ei ddefnyddio yn ystod yr Wythnos Rhyng-ffydd. Bydd yn adeiladu ar yr adnoddau i ysgolion (uchod) ac yn darparu deunyddiau i ysgolion cynradd ac uwchradd. Gwahoddir CCYSGAauC i gymryd rhan yn y broses ymgynghori fel aelod o'r Rhwydwaith Rhyng-ffydd. Bydd yr wythnos Rhyng-ffydd yn mynd o ddydd Sul 14 Tachwedd i ddydd Sul 21 Tachwedd ac mae adnoddau i ysgolion ar gael hefyd (gweler: https://www.interfaithweek.org/resources/schools-2). Eleni mae'r Wythnos yr un pryd â'r Wythnos Gwrth-Fwlio a'r bwriad yw gwneud darn o waith ar y cyd â'r Gynghrair Gwrth-Fwlio o ddydd Llun i ddydd Gwener yr Wythnos.

**Diweddariad PYCAG (Libby Jones)**
Adroddodd LJ fod y mwyafrif o drafodaethau diweddar y panel wedi canolbwyntio ar y Canllawiau Drafft i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Rhannwyd a nodwyd amrywiaeth o safbwyntiau yn ei gyfarfod ar 15 Mehefin, oedd yn ffurfio ymateb drafft sylweddol a defnyddiol i'r ymgynghoriad, gyda llawer o bethau i gydweithwyr Llywodraeth Cymru eu hystyried. Roedd yr eitemau eraill a drafodwyd yn ei gyfarfod haf yn cynnwys, dysgu proffesiynol, cyflwyniadau PYCAG, a diweddariadau gan aelodau. Nodwyd hefyd fod angen edrych ar y cyfansoddiad cyn bo hir. Bydd yr aelodau'n ystyried nodau'r panel a'i aelodaeth yn y dyfodol. I gau'r cyfarfod, diolchodd y Cadeirydd oedd yn dod i ben, Libby Jones, i'r aelodau i gyd am eu cefnogaeth barhaus a'u hymrwymiad i AG. Mae PYCAG wedi mynd o fod â 4 o aelodau yn ôl yn 2018, i fod â thua 18 yn 2021, sy'n galonogol. Mae Paula Webber yn cymryd drosodd fel Cadeirydd, ac mae'r panel yn edrych ymlaen at weithio gyda Paula i gefnogi Cymdeithas CYSAGau Cymru a helpu i gryfhau a hyrwyddo AG a CGM mewn ysgolion ledled Cymru.

**10. Gohebiaeth (Alice Parry)**

Derbyniwyd gohebiaeth gan:

Gyngor y Gweithlu Addysg yn gofyn a hoffai CCYSAGauC enwebu cynrychiolydd.
**GWEITHREDU:** Gwahoddir yr aelodau i hysbysu AP (ysgrifennydd) os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn bod yn gynrychiolydd.

NASACRE ynglŷn â rhannu gwybodaeth ar adrannau aelodau eu gwefan.
**GWEITHREDU:** ystyrir hyn yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith a bydd penderfyniad yn cael ei wneud.

Dywedodd Paula Webber wrth CCYSAGauC na fydd hi'n derbyn cynnig EAS i adnewyddu ei chytundeb o fis Awst, oherwydd ei bod angen creu gwell cydbwysedd bywyd gwaith a theulu – ni fu hwn yn benderfyniad hawdd. Bydd Paula'n parhau yn ei swydd hyfforddi athrawon gyda Met Caerdydd ac felly bydd hi'n dal i gymryd rhan yn y byd AG.

Fel Cadeirydd, diolchodd RS i Paula am ei chyfraniad enfawr i CCYSAGauC dros y blynyddoedd ac i AG yn ehangach. Pwysleisiodd y bydd hyn yn golled i EAS ac i bob un o'r CYSAGau y mae hi'n eu cefnogi.

Dilynwyd hyn gan nifer o unigolion yn mynegi eu diolch personol a'u gwerthfawrogiad i Paula am eu gwybodaeth, ei harbenigedd, cefnogaeth, cyfeillgarwch, ei gwaith caled a'r synnwyr digrifwch a ddaeth gyda hi i'r CYSAGau.

**11. Unrhyw fater arall (i'w gytuno arno o flaen llaw gyda'r Cadeirydd)**

Dim

**12. Dyddiad y cyfarfod nesaf: Hydref 2021 - Torfaen**

Mae'n debyg y bydd hwn yn digwydd ar-lein drwy Teams.

Diolchwyd i Gyngor Sir Powys am 'letya''r cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 1p.m.

DRAFT

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

***Wales Association of SACREs meeting,***
***Virtual via Microsoft Teams***
***Wednesday 16th June, 2021***
**10.15a.m. – 1.00p.m.**

DRAFT

**Attendance**

| | | | |
|---|---|---|---|
